HG 35. 5 237

# GALAR-GAN

**Er Coffadwriaeth am Bregethwr, Diaconiaid, ac Aelodau, a ymadawsant a'r byd trwy angau, o'r Gelynos, Capel yr Annibynwyr, yn Llanwrtyd, swydd Frycheiniog.**

*Gan Roger Jones, Llanwrtyd, Brawd arall Isaac o Dreflys.*

**"Y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth."**

**PRIS CEINIOG A DIMAI.**

1. 'R ydwyf fi yn awr o'r newydd
 Yn teimlo ynwyf awydd taer,
Am y rheini wnaethant flaenu,
 Yn yr Iesu draethu gair;
Mae rhyw amryw wyf yn gofio
 Wedi huno—aethant fry,
I'r wlad dawel nad oes trafael,
 Fu o fewn ein capel ni.

2. Syrthio wnaeth gwr mawr o'n gafael,
 A thawysog Israel Duw,
Y mae amryw yn ei gofio,
 Er nad ydyw etto'n fyw,
James, Tygwyn, gwn oedd y gwron,
 Bu yn Seion fel rhyw gawr,
Ond gall aml un i wylo,
 Am nad ydyw yno 'nawr.

3. Fe siaradai pan mewn cwrddau,
 Nes mawr synau pawb mi wn,
Rhai oedd bron a dweyd pryd hyny,
 Wnaeth neb lefaru fel gwnaeth hwn,
'Doedd ef byth yn ddyn oedd flysiog,
 Nac yn euog o un bai,
'Roedd ei draed o hyd wrth rodio,
 I bawb yn tystio'r fath un fai.

X205 313168

4. Hefyd priod hoff gysyrus,
Meistr Davies o'r Tygwyn,
Er mewn iechyd, ca'dd ei symud,
Bron mewn munud trwy y glyn;
Dwy ferch dduwiol i'r ddau yna,
Oedd Eliza, gwraig Tynma's,
Ac Elinor, gwraig Tynewydd,
Cawsant grefydd llawn o ras.

5. Sarah Davies, chwaer dra medrus
Yn Tygwyn bu'n trefnus fyw,
Hi ddarllenau rai adnodau
Hwyr a boreu yn ein clyw;
Cadwai fyny grefydd Iesu,
Yn ei theulu bob rhyw ddydd,
Ond mae heddyw'n dechreu canu,
Ac heb dewi canu bydd.

6 Hi ddarllena'r testamentau,
Amryw weithian meddai hi,
Wyth yr hen a naw y newydd,
Nid yn afrwydd yn ei thy ;
Gwnai ei ddarllen bob yn benod,
Wedi marw ei hynod dad,—
Y mae crefydd yn y teulu,
'Nawr i'w hoffii mewn pob gwlad.

7 O mor hyfryd gwel'd mewn teulu,
Ferch neu wraig mewn gweddi daer;
Os nad a pob un mor belled,
O darllened ran o'r gair.
Dyna'r nesaf, enwaf etto,
Wnaeth ein gado gofiaf fi,
Bu flynyddoedd yn pregethu—
'Nawr mae'n canu'n beraidd fry.

8 Hugh Price oedd y person hawddgar,
Dyn dyoddefgar dan y groes;
Arno'n foreu t'rawai'r angau,
Byrion oedd blynyddai 'i oes;
Dyn rhyfeddol oedd o dduwiol,
A defnyddiol yn ei ddydd,
Ond y fynyd ddaeth i farw,
Ac fe wnaeth efe gadw'r ffydd.

9 A'r brawd nesaf enwaf etto,
A wnaeth huno'n hyfryd iach,
Yn yr Iesu, 'rhwn wnai garu,
William Jones, Penhernwenfach,
Evan Jones, a Thomas Davies,
Dynion parchus yn ei dydd.
Fu'n blaenori amryw flwyddi,
Gyda gwerthfawr deulu'r ffydd.

10 Dafydd Davies a John Richards,
Dau hen gristion cynes aeth,
A fu'n aros gyda'r achos,
Yn Gelynos flwyddau maith;
William Jones, gwiniedydd etto,
Fe rodd heibio gario'r cledd,
Ac mae wedi cyrhaedd gartref,
I drigfanau'r bythol hedd.

11 Dywedaf etto, gan alaru,
Am fy hoff rieni cu,
Buout hwythau amryw flwyddi
Gyda'r teulu yn y ty;
Cawsant yno fwynhau'r gwleddoedd,
Ga'r holl bobloedd ganlyn Grist,
Ac maent heddyw gyda'r teulu,
Nad yw'n ofni—nac yn drist.

12 Trwm 'rwy'n teimlo wedi colli,
Hoff rieni—brawd a chwaer,
A fy mhlentyn ieuanc hawddgar,
Roed yn gynar yn y ddae'r;
O Penhenwernfawr aeth Davies,
Gorphen wnaith ei ddyrus daith,
Fe fu yntau ar ei liniau,
Mewn gweddiau lawer gwaith.

13. O'r Bryncarthog i'r Gelynos,
James bob wythnos bron doi ef,
Ac fel hyny teimlai'n foddlon,
Eiste'n brydlon yn ei le;
Richard Evans fe wnai aros,
Gyda'r achos yma'n hir,
Ond dihangodd ar ofidiau,
A chystyddiau'r anial dir.

14. Dafydd Griffiths a Gwenllian,
Sydd mewn graian gyda'i plant,
Yn Pengraig yn byw y buont,
Efe a'i wraig a aethant bant;
Bwlchtuathref Llaw'rdref mi gofiaf,
Y bu Gwen a Martha'n hir,
Bendigedig ydyw coffa,
'R fath rai oedd y rheina'n wir.

15. Enwaf etto'r hoff chwaer Mari,
Merch i Gweni Bwlchtuathref,
Hi ganlynai ei mam i'r gwynfyd,
Ni ddaw gofyd byth i'r lle;
O'r Nantgwyn aeth 'Liza hefyd,
Mewn i'r gwynfyd perffaith pur,
'Roedd hi'n hynod mewn duwioldeb,
Gwnaeth a'i phriod undeb hir.

16. Er mewn cystudd blin hir amser,
Byddai'n arfer bod yn fwyn,
Pob rhyw groes ddoi i'w chyfarfod,
'Roedd hi'n barod i'dd eu dwyn;
Edward Jones ac Ioan Protheroe,
Enwaf eto'r brodyr hyn,
Jones, Penhernwen, bu ei berchen,
Prothero'r brawd o'r Pistillgwyn.

17. Joan Price, o Ffosyrhyddod,
Oedd bur barod bob rhyw bryd,
A'i chwaer Margaret i roesawi,
Gweision Iesu yn y byd;
Cofio rwy'r cymundeb cyntaf,
Gefais yma yn y byd,
Tri ddaeth gyda mi'r pryd hyny,
Wedi blaenu maent i gyd.

18. Roger Price fu yn Penfedw,
A'i wraig fu farw ys amser maith,
Gwraig Penhernwenfach, mae hithau,
Heddyw gartre ar ben ei thaith;
Cofiaf etto ddau frawd ddyfal,
Yn eu hardal oeddynt gu,
Morgans 'r Esgair, a brawd llawen,
Williams Llwynsyfien fu.

19. Cawsant hwy y gwir lawenydd
Sydd mewn crefydd ar y llawr,
Ond maent wedi goddiweddyd,
Hwn mewn gwynfyd pur yn awr;
A John Williams, gynt o'r Cefn,
Ar y ddaearen mwy ni fydd,
Er bod yma mewn rhyw rwymau,
Gan gystuddiau aeth yn rhydd.

20 Mae ei deulu etto'n ffyddlon,—
Tendio'r moddion bron o hyd,
Hwy ganlynant ei esamplau,
Tra cant ddyddiau yn y byd
O mor werthfawr yw dyn duwiol,
Idd ei bobcl ar y llawr;
Wedi marw mae'n llefaru—
Gwnant ei efelychu 'nawr.

21 John, o rhyfedd fath yw 'th agwedd,
'Nawr o fewn dy oeraidd dy;
Nid wy'n gwybod, ond caf ddyfod
Lawr i'r beddrod fel tydi;
A John Pugh, Troedrhiw, mae yntau,
Heddyw gartre ar ben ei daith,
Wedi bod yn ysgrifenydd,
Trefnus, ufydd, flwyddau maith.

22 Pumtheg mlwydd ar hugain cyfan,
Bu'n 'r unman yn ei swydd;
Mi wnes gredu wedi ei farw,
Na cheid neb i'w llanw'n rhwydd.
Fe ymdrechodd er ei gloffni,
Ddod o hyd at deulu Duw,
Ac er nychdod ag afiechyd,
Fe fu'n ddiwyd tra fu'n byw.

23. Ar ryw Sabboth 'rwyf yn cofio,
Bum i yno gydag ef,
A bu arnaf yn dymuno,
Am weddio yn y lle,
Cawsom hefyd hyfryd swpiau,
Gwerthfawr ffrwythau'r wlad i lawr,
Ond mwy hyfryd yw rwy'n credu,
Lle gwnant dyfu iddo nawr.

24. Mae ef heddyw gyda'r teulu
 A fu'n garu yn y byd,
Fe fu'n hoffi en cwmpeini,
 Er yn ofni lawer pryd;
Rees Price etto a wnaf enwi,
 Ca'dd ei gladdu'n eithaf gwir,
Waith ei briddo yn y ddaear,
 Bydd am dano alar hir.

25. Erwfelin bu yn magu
 Amryw fyny'n ddynion mawr,
Ac yn arddel crefydd Iesu,
 Nes gwnai fethu rhodio'r llawr,
I dy Dduw bu'n teithio'n ddiwyd,
 Sarah ei briod hefyd fu,
Wyth deg ýfudd heb un cerydd,
 Gyda chrefydd yn y Ty.

26. Meistres Rowlands, lan deg hefyd,
 Yn Llanwrtyd magwyd hi,
Yn y Bont bu'n aelod wastad,
 Mae 'mham ai' llysdad gyda ni,
Hi briodai'r hwn a garai,
 Newydddref dechreuai fyw,
Mae ei chorph wrth Llan Llanwrtyd,
 A'i henaid hefyd gyda Duw.

57 Er yn berchen pethau daear,
 Byddai'n hawddgar i bob dyn,
Mae'r ddoethineb sydd oddi uchod
 'N hawdd i'w nhabod ac i'w thrin,
Er ei glendid a'i hieunctyd,
 A'i chrefyddol fywyd hi,
Rhodiodd lwybr i'r pur wynfyd,
 Heb ddychwelyd mwy i'w thy.

28 Chwaer o'r Prysefach 'nol nychdod,
 Gyda'i phriod heddyw mae,
Hi wnai hoffi crefydd Iesu,
 Tra'n pabellu yn y clai;
Rees Jones etto wyf yn gofio,
 Yn gweddio lawer gwaith,
Yn ddirgelaidd a chyhoeddus,
 Mor afaelus ac mor ffraeth.

29 Brynhir buodd cafodd grefydd,
Wellau beunydd tua'r glyn,
Nid rhaid ofni stormydd bywyd,
Angau hefyd ond cael hyn,
Yn y dirgel 'roedd ef ryw dro,
Yn gweddio ar ei Dduw,
A brawd arall mewn mawr effaith,
Y ddau ar unwaith yn fy nghlyw.

30 William Jones, Penhernwen, etto,
Fu'n cyd-deithio gyda mi,
Mae fy nghalon heddyw'n teimlo
Waith ymado'm cyfaill cu,
Pan feddyliau fod cyfyngder
Bob rhyw amser nerthau'r gwan,
Llaw o gymhorth er ei godi,
Fe wnai roddi yn y man.

31 'Roedd ei grefydd fel yn gloewi
Pan yn nesu tua'r bedd,
Mi obeithia 'i fod e'n gwledda
Gyda'r dyrfa hardd ei gwedd;
A Charles Jenkins, Penbontuchaf,
Fe fu yma yn y byd,
Amryw ddegau o flynyddau,
Ac fe eu treuliau bron i gyd.

32 Yn ngwasanaeth ei hoff geidwad,
Ddaeth o'i gariad lawr o'r nef,
Ac ar groesbren er ein cadw,
Fe fu farw yn ein lle,
Mari Jenkins ei hoff briod,
Cristion hynod llawn o ffydd,
Gyda'r Iesu hi wnaeth rodio,
Nes rhoi heibio'r babell bridd.

33 Price, Tynewydd, a'i chwaer 'Liza,
Hefyd Hannah wela'n glir,
Wedi iddi fod heb weled,
Yma am ryw yspaid hir;
Price, Gwybedog, deithiau'n ddiwid
I Llanwrtyd lawer gwaith,
A'i hoff briod dros y bryniau,
Cyn eu mynd i'r siwrnau faith.

34 Nawr rwy'n rheddi ffarwel i chwi,
Dduwiol deulu bob yr un,
Ac yn credu wrth wneyd hyny,
Caf fy nghladdu fel pob dyn;
Yn fy llety cul un 'stafall,
Oer a thywell hyd y dydd,
Daw holl garcharorion angau,
Fyny o'u gwelyau prydd.

35 O am ddod i dir y credu;
Os heb hyny hyd yn awr,
M' gweld yn marw a chael fy nghadw
Yn haeddianau,r meichiau mawr;
Fel rhyw gysgod yw ein heinioes,
Yn ddiaros daw i ben,
Llefwn am adnabod ceidwad,
Cyn yr alwad, nawr Amen.